14 Mai 2013

I sylw blaenoriaid y Gymdeithasfa yn y Gogledd

Annwyl Gyfeillion

Diwrnod arbennig i flaenoriaid y Gymdeithasfa yn y Gogledd

Y mae'r Adran Hyfforddiant ac Ymgeiswyr wedi trefnu diwrnod ar gyfer blaenoriaid y Gymdeithasfa yng **Nghapel Tegid y Bala** ar **ddydd Sadwrn, 29 Mehefin** eleni.

Mawr hyderir y bydd nifer dda o flaenoriaid yn gallu dod ynghyd, pryd y ceir cyfle yn y bore i drafod gyda'r Parchg Judith Morris, Penrhyn Coch, ffyrdd o ddal gafael ar aelodau a denu yn ôl rai a giliodd o'r oedfaon. Yn y prynhawn bydd rhai o'r blaenoriaid yn ffurfio panel a cheir cyflwyniadau byrion ar amrywiol bynciau perthnasol i flaenoriaid.

Mawr hyderir y gall rhai blaenoriaid o'ch eglwys fynychu'r cyfarfodydd hyn; bydd croeso cynnes a trafodaethau diddorol yn eich aros.

Darperir cinio, a gofynnir yn garedig i chwi adael i mi wybod ymlaen llaw os ydych yn bwriadu dod i'r Bala – mae ffurflen ymateb yn amgaeedig, a byddwn yn dra diolchgar pe gallech ei chwblhau a'i dychwelyd yma erbyn **20 Mehefin,** neu anfon e-bost i rhian.h@hotmail.co.uk Gan y bydd y bwyd yng Nghapel Tegid yn cael ei ddarparu gan arlwywyr bydd yn rhaid cael niferoedd y mynychwyr i law yn brydlon.

Llawer o ddiolch am eich cydweithrediad.

Gyda chofion caredig a phob dymuniad da.

Yn gywir,

Elwyn Richards